



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif 2496 (Cy. 244)

2013 No. 2496 (W.244)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Cerbydau Modur
(Cystadlaethau a Threialon)
(Diwygio) (Cymru) 2013

The Motor Vehicles (Competitions
and Trials) (Amendment) (Wales)
Regulations 2013

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Rheoliadau Cerbydau Modur (Cystadlaethau a Threialon) 1969 (O.S. 1969/414) ("Rheoliadau 1969"). Mae'r diwygiadau hyn yn gymwys mewn perthynas â digwyddiadau sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru y gwneir cais am awdurdodiad o dan Rheoliadau 1969 mewn cysylltiad â hwy ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Pan fo digwyddiad yn digwydd yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn rhywle arall, dim ond i'r rhan sy'n digwydd yng Nghymru y mae'r diwygiadau yn gymwys.

These Regulations further amend the Motor Vehicles (Competitions and Trials) Regulations 1969 (S.I. 1969/414) ("the 1969 Regulations"). These amendments apply in relation to events taking place wholly or partly in Wales in respect of which an application for authorisation under the 1969 Regulations is made on or after the coming into force of these Regulations. Where an event takes place partly in Wales and partly elsewhere, the amendments apply only to the part taking place in Wales.

Mae'r Rheoliadau yn penodi "the Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited" (yn lle "the Royal Automobile Club") fel y corff awdurdodi ar gyfer digwyddiadau o'r fath. Maent yn caniatáu i "the Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited" benderfynu ar ei ffioedd ei hunan am geisiadau. Ni chaniateir i unrhyw ffi y penderfynir arni fod yn fwy na swm rhesymol. Mae'n ofynnol cyhoeddi lefelau ffioedd ac ni chaniateir eu cynyddu oni chyhoeddir manylion unrhyw gynnydd o leiaf 3 mis cyn iddo gymryd effaith. Maent hefyd yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau penodedig yn Atodlen 4 i Rheoliadau 1969 drwy ailenwi un o'r digwyddiadau penodedig.

The Regulations appoint the Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited (in place of the Royal Automobile Club) as the authorising body for such events. They permit the Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited to determine its own application fees. Any fee determined must not exceed a reasonable amount. Fee levels are required to be published and may not be increased unless details of any increase are published at least 3 months before it takes effect. They also amend the list of specified events in Schedule 4 of the 1969 Regulations by renaming one of the specified events.

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A regulatory impact assessment has been prepared in relation to these Regulations. Copies may be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2013 Rhif 2496 (Cy. 244)

2013 No. 2496 (W. 244)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Cerbydau Modur
(Cystadlaethau a Threialon)
(Diwygio) (Cymru) 2013

The Motor Vehicles (Competitions
and Trials) (Amendment) (Wales)
Regulations 2013

Gwnaed 30 Medi 2013

Made 30 September 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 1 Hydref 2013

Laid before the National Assembly for Wales
1 October 2013

Yn dod i rym 25 Hydref 2013

Coming into force 25 October 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddrafnidiaeth gan adran 13 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(1), a drosglwyddwyd wedi hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff cynrychioliadol hynny yr oeddent yn eu hystyried yn briodol yn unol ag adran 195(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State for Transport by section 13 of the Road Traffic Act 1988(1), subsequently transferred to the National Assembly for Wales and now vested in them(2) and having consulted such representative organisations as they thought fit in accordance with section 195(2) of that Act, make the following Regulations.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cerbydau Modur (Cystadlaethau a Threialon) (Diwygio) (Cymru) 2013 a deuant i rym ar 25 Hydref 2013.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1969" ("*the 1969 Regulations*") yw Rheoliadau Cerbydau Modur (Cystadlaethau a Threialon) 1969(3).

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Motor Vehicles (Competitions and Trials) (Amendment) (Wales) Regulations 2013 and they come into force on 25 October 2013.

(2) In these Regulations "the 1969 Regulations" ("*Rheoliadau 1969*") means the Motor Vehicles (Competitions and Trials) Regulations 1969(3).

(1) 1988 p.52; diwygiwyd adran 13(4) gan baragraff 46 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddrafnidiaeth mewn perthynas ag adran 13 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999 Rhif 672).

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(3) O.S. 1969/414: yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1974/1674, 1976/1657, 1982/1103, 1993/2233.

(1) 1988 c.52; section 13(4) was amended by paragraph 46 of Schedule 4 to the Road Traffic Act 1991 (c.40). The functions of the Secretary of State for Transport in relation to section 13 of the Road Traffic Act 1988 were transferred to the National Assembly for Wales under the provisions of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999 No.672).

(2) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.

(3) S.I. 1969/414: relevant amending instruments are S.I. 1974/1674, 1976/1657, 1982/1103, 1993/2233.

Cymhwyso

2.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â digwyddiadau sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru y gwneir cais am awdurdodiad o dan Reoliadau 1969 mewn cysylltiad â hwy ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(2) Pan fo digwyddiad yn digwydd yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn rhywle arall, dim ond i'r rhan sy'n digwydd yng Nghymru y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys.

Diwygio Rheoliadau 1969

3. Mae Rheoliadau 1969 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 4 i 7.

Corff awdurdodi

4. Yn Rheoliadau 1969 (ac eithrio yn rheoliad 3 ac Atodlen 4) yn lle'r geiriau "Royal Automobile Club", ym mha le bynnag y maent yn ymddangos, rhodder y geiriau "Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited".

Ffioedd

5. Yn lle rheoliad 8 rhodder—

"Fees

8.—(1) It is a condition of any authorisation of an event by the Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited (in this regulation referred to as "the authorising body") that a fee is paid to the authorising body of such amount as may be determined by that body.

(2) A fee determined under paragraph (1) must not exceed a reasonable amount.

(3) When determining any fee under paragraph (1) the authorising body may determine different fees for different classes or descriptions of event.

(4) The authorising body must publish, in such manner as it considers appropriate for informing persons likely to be affected, the levels of any fees which it has determined in accordance with paragraph (1) as they apply from time to time.

(5) The authorising body may not increase any fee determined under paragraph (1) unless details of the increase are published in accordance with paragraph (4) not less than 3 months before the date on which the increase takes effect."

Application

2.—(1) Subject to paragraph (2), these Regulations apply in relation to events taking place wholly or partly in Wales in respect of which an application for authorisation is made under the 1969 Regulations on or after the coming into force of these Regulations.

(2) Where an event takes place partly in Wales and partly elsewhere, these Regulations apply only to the part taking place in Wales.

Amendment of the 1969 Regulations

3. The 1969 Regulations are amended in accordance with regulations 4 to 7.

Authorising body

4. In the 1969 Regulations (except in regulation 3 and Schedule 4) for the words "Royal Automobile Club", wherever they appear, substitute the words "Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited".

Fees

5. For regulation 8 substitute—

"Fees

8.—(1) It is a condition of any authorisation of an event by the Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited (in this regulation referred to as "the authorising body") that a fee is paid to the authorising body of such amount as may be determined by that body.

(2) A fee determined under paragraph (1) must not exceed a reasonable amount.

(3) When determining any fee under paragraph (1) the authorising body may determine different fees for different classes or descriptions of event.

(4) The authorising body must publish, in such manner as it considers appropriate for informing persons likely to be affected, the levels of any fees which it has determined in accordance with paragraph (1) as they apply from time to time.

(5) The authorising body may not increase any fee determined under paragraph (1) unless details of the increase are published in accordance with paragraph (4) not less than 3 months before the date on which the increase takes effect."

Cais am awdurdodiad

6. Yn Atodlen 2 yn lle “31 Belgrave Square, London, SW1” rhodder “Motor Sports House, Riverside Park, Colnbrook, SL3 OHG”.

Digwyddiadau penodedig

7. Yn Atodlen 4, o dan y golofn “Title of event” yn lle “International Six Days’ Trial.” rhodder “International Six Days’ Enduro.”

Application for authorisation

6. In Schedule 2 for “31 Belgrave Square, London, SW1” substitute “Motor Sports House, Riverside Park, Colnbrook, SL3 OHG”.

Specified events

7. In Schedule 4, in the column head “Title of event” for “International Six Days’ Trial.” substitute “International Six Days’ Enduro.”

Edwina Hart

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a
Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

30 Medi 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Economy, Science and Transport, one of
the Welsh Ministers

30 September 2013

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W1728/10/13

ON

ISBN 978-0-348-10812-5



9 780348 108125